Docusign Envelope ID: 0B43E072-3776-49CE-8C9A-450B225308DE

**<u>CYNGOR SIR CAERFYRDDIN</u>**

**<u>GORCHYMYN O DAN ADRAN 21 O DDEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847</u>**

**<u>AR GYFER ATAL RHWYSTR</u>**

---

Ddydd Sadwrn, 20fed of Fedi 2025 rhwng 07:00 a 18:00 o'r gloch, a dydd Sul 21 of Fedi 2025 rhwng 07:00 a 18:00, bydd Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri yn orlawn ac yn debygol o fod wedi'i rwystro, o'r gyffordd â Stryd Lydan hyd at y gyffordd â Stryd Cerrig, am bellter o 165 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, ar gyfer Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y stryd a enwyd, sef Sgwâr y Farchnad, Llanymddyfri, y bydd y stryd honno'n cael ei chau i bob traffig cerbydau gan gynnwys beiciau pedal ddydd Sadwrn, 20fed of Fedi 2025 rhwng 07:00 a 18:00, a dydd Sul 21 o Fedi rhwng 07:00 a 18:00, fel bod modd i gerbydau'r gwasanaethau brys gael mynediad i'r stryd heb oedi mewn argyfwng.

Y ffordd arall ar gyfer traffig sy'n teithio i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain fydd mynd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd cefnffordd yr A40 hyd at y gyffordd â Stryd Cerrig. Wrth y gyffordd, troi i'r chwith a pharhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin er mwyn dychwelyd i fan sydd i'r gogledd-ddwyrain o'r man lle mae'r ffordd ar gau.

19179

**Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**
**Ar y ddogfen hon yng ngŵydd:**




Steven P Murphy

---

**STEVEN P MURPHY**
**PENNAETH Y GYFRAITH, LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU SIFIL**

**Dyddiedig y** 22ain **o** o Awst **2025**

Docusign Envelope ID: 0B43E072-3776-49CE-8C9A-450B225308DE